Gwerthusiad Cronfa Cynhwysiant Gweithredol (CCG) Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)

Adroddiad Terfynol: Crynodeb Gweithredol

-

Medi 2022

Gwerthusiad Cronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC: Adroddiad Terfynol: Crynodeb Gweithredol

1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi canfyddiadau a chasgliadau yn dilyn gwerthusiad ynghylch Cronfa Cynhwysiant Gweithredol (CCG) a lansiwyd yn 2015 gaiff ei darparu gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a'i hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd. Cafodd y CCG ei hariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (CCE) ac fe'i ffurfiwyd er mwyn cyfrannu tuag at fynd i'r afael â'r heriau hirsefydlog ynghlwm â chynnig cymorth i bobl 'anodd eu cyrraedd' yng Nghymru i ymuno neu ail-ymuno â'r farchnad lafur: pobl gafodd eu disgrifio'n addas fel 'y rheiny nas clywir yn aml' gan aelod Panel Anweithgarwch Economaidd CGGC.

2. Damcaniaeth Newid a Rhesymeg Ymyrraeth

2.1. Bu i gynllun CCG gyd-fynd gyda'r egwyddorion ar gyfer llwyddiant wrth gefnogi pobl mewn amgylchiadau heriol gan gydnabod fod angen *gallu* ar bobl i weithredu'n effeithiol ac yna *cyfleoedd* i ddod o hyd i waith a dal ati i weithio. Roedd wedi'i seilio ar gynsail gadarn bod dod o hyd i waith addas a'i gynnal yn fodd o helpu pobl i oresgyn tlodi, gyda buddion lles ar gyfer yr unigolyn, teuluoedd, cymunedau ac economi Cymru'n fwy eang.

2.2. Bu i CCG gyfuno amcanion cyflogadwyedd, llesiant a lles drwy fynd i'r afael â sgiliau meddal a bywyd yr unigolion oedd yn cymryd rhan ynghyd â chaffael sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith er mwyn gosod pobl ar lwybr tuag at waith gan gydnabod y gallai ffordd o fyw gwell ac iachach fod yn benderfynydd allweddol i ddod o hyd i waith.

2.3. Roedd CCG yn agwedd hyblyg a Chymru gyfan o ran polisi cyflogadwyedd Cymru. Bu'n meithrin arloesedd, dulliau ymateb lleol a darparu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer unigolion a grwpiau sy'n wynebu heriau. Bu'n ymwneud gydag ystod eang o gyrff i gynnig cymorth, ac yn enwedig bu'n cynnull mudiadau trydydd sector a wnaeth rannu sgiliau a phrofiad yr un mor eang.

2.4. Lansiwyd CCG yn 2015, fe'i hestynnwyd ar gyfer cam 2 yn 2017 ac yna ei hestyn ymhellach ar gyfer trydydd cam yn 2019. Bydd disgwyl i'r CCG ddod i ben yn gyfan gwbl yn ystod Gwanwyn 2023. Roedd felly ar waith yn ystod y cyfnod cyn COVID 19, y pandemig a'r cyfnod yn dilyn y pandemig.

2.5. Bu i'r fethodoleg gwerthuso gyfuno dulliau ansoddol megis gweithdai, cyfweliadau ac arsylwadau gyda'r rhai oedd yn cymryd rhan, cyrff oedd yn cynnig cymorth a rhanddeiliaid ehangach gan ddadansoddi'r data a'r adolygiadau llenyddiaeth yn feintiol, ynghyd â gweithdai dilysu a throsolwg a her y Grŵp Llywio.

3. Canfyddiadau

3.1. Ar y cyfan, llwyddodd y CCG i gyrraedd grwpiau wedi'u targedu a gwneud 'gwahaniaeth' ledled Cymru gan gynnig cymorth i dros 23,000 o unigolion ers 2015. Mae'r cyflawniad hwn yn ddirfawr o ystyried mai'r unigolion oedd yn cymryd rhan oedd y rheiny oedd yn wynebu amgylchiadau heriol yn gyson.

Perfformiad CCG: Gweinyddiaeth, Targedau a Chyllid

3.2. Cafodd rôl y CGGC a'r CCG eu gwerthfawrogi'n eang gan fuddiolwyr (mudiadau oedd wedi'u hariannu i gynnig cymorth) ac fe'i hymestynnwyd i gydnabod bod CGGC wedi gwneud newidiadau defnyddiol i systemau lle'n bosibl yn unol â gofynion ariannu'r UE.

3.3. Fodd bynnag, bu her allweddol drwy gydol y gwerthusiad yn ymwneud â rhwystredigaethau'r buddiolwyr yn sgil gofynion proses CCG heriol. Roedd y rhain wedi'u llunio i gydymffurfio gydag amodau Cyllid Ewropeaidd. Roedd rhai yn fuddiol o bosibl i'r rheiny oedd yn cymryd rhan, ond bu iddyn nhw greu heriau gwirioneddol i unigolion bregus, unigolion oedd yn amheus o awdurdodau neu unigolion oedd yn anghyfarwydd gyda phrosesau swyddogol. Nid oedd yr heriau hyn yn unigryw: bu i adroddiad Guilford 2013 eu hamlygu fel materion endemig i raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop[1].

3.4. Ail broblem oedd diffyg cyfatebiaeth rhwng natur gynhenid hyblyg CCG (a oedd yn greiddiol i lwyddiant y rhaglen), a'r fframwaith targedu cychwynnol a osodwyd ar ei gyfer. Mae angen data cadarn ar amcanion polisi cyflogadwyedd er mwyn disgrifio amodau lleol, fodd bynnag pan gân nhw eu gweithredu'n amhriodol, gallan nhw fod yn llai defnyddiol. Roedd cynllun y CCG yn anghyson gyda'r targedau hynod benodol oedd wedi'u gosod i ddechrau ar gyfer meysydd daearyddol lleol. Er enghraifft, a fyddai un person yn llai wedi'u cefnogi gyda sgiliau isel yng Nghonwy nag a dargedwyd ac un ychwanegol wedi'i gefnogi yn Ynys Môn yn fethiant?

3.5. O ystyried natur amcanion CCG, nid yw'n syndod bod y cyllid a'r targedau wedi'u hadolygu'n sylweddol yn ystod oes y rhaglen. Roedd graddau'r ailbroffilio angenrheidiol a phragmatig hwn yn un o weithrediadau gor-optimistiaeth a'r heriau a'r amseroedd oedd ynghlwm ag ymwneud gydag a chefnogi pobl sy'n wynebu heriau a rhwystrau difrifol (ac a allai fod â diffyg ffyrdd llinol o fyw).

3.6. Ar y cyfan, nid yw hyn yn amharu ar gasgliad gwerthuso cyffredinol cadarnhaol.

COVID 19: Effeithiau a Dysgu

3.7. Roedd COVID 19 yn hynod aflonyddol ledled Cymru. Bu'r CCG yn parhau i fod ar waith mewn amodau heriol: yn reddfol, mae'n syndod nad oedd yr

[1] Buddsoddi mewn Twf a Swyddi: Adolygiad Annibynnol o Drefniadau ar gyfer Gweithredu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014 – 2020, Mawrth 2013, Dr Graham Guilford

effeithiau'n fwy hynafol o ystyried y bobl a dargedwyd ar gyfer cymorth a'r effaith ehangach ar y gymdeithas yng Nghymru.

3.8. Ymysg yr effeithiau tymor byr oedd rhwystrau i gynnig cymorth (er enghraifft, roedd rhai prosiectau yn ymwneud â gweithgareddau grŵp neu brofiad ymarferol) a heriau ynghylch dod o hyd i swyddi neu leoliadau oedd ar gael. Yn yr un modd, o ystyried y grwpiau a'r unigolion a dargedwyd ar gyfer cymorth, roedd yn debygol y byddai'r unigolion oedd yn cymryd rhan yn cael eu 'colli', ac roedd hyn yn wir: bu i gymhelliant a disgwyliadau rhai o'r unigolion leihau.

3.9. Ymysg yr agweddau allweddol i gynnal y Gweithrediad CCG oedd hyblygrwydd CGGC a Llywodraeth Cymru'n addasu prosesau'r CCG a chymorth CGGC i fuddiolwyr. Hefyd, roedd gwydnwch ac addasrwydd buddiolwyr – *ai pheidio* – yn ymateb yn hollbwysig: aeth rhai ati i roi'r gorau i'w gweithgareddau ar unwaith neu eu lleihau, bu i rai eraill addasu eu dull a'r natur neu'r ffordd roedden nhw'n cynnig cymorth. Yn Adran 3.4 y prif adroddiad mae dadansoddiad pellach o'r hynny oedd yn effeithiol a'r hyn a ddysgwyd sy'n cynnig gwersi allai fod yn drosglwyddadwy y tu hwnt i fanylion y pandemig COVID 19.

3.10. Ar y cyfan, mae'n ymddangos mai un deilliant ydy mabwysiadu dulliau hybrid yn fwy eang wrth ymwneud â phobl sy'n cyfuno dulliau wyneb-yn-wyneb a digidol i raddau llawer mwy helaeth na'r cyfnod cyn COVID 19.

Wnaeth CCG Gyrraedd a Llwyddo i Helpu Grwpiau Targed?

3.11. Ar y cyfan, bu i'r rhan fwyaf o'r unigolion oedd yn cymryd rhan nodi profiadau cadarnhaol a buddion. Roedd yna eithriadau ond nid yw hynny'n syndod ar gyfer rhaglen o'r raddfa hon ac o ystyried bod pobl sydd ar fin goresgyn ffyrdd o fyw anhrefnus neu amgylchiadau anodd ym mhlith y grwpiau sydd wedi'u targedu. Bu i'r rhaglen:

a) Lwyddo i gydweithio gyda nifer o bobl mewn amgylchiadau heriol ac roedd ganddi hanes rhagorol o ran deilliannau'r unigolion oedd yn cymryd rhan.

b) Ymgysylltu gydag unigolion oedd â nodweddion hynod amrywiol. Roedd rhai yn agos at ymuno gyda'r farchnad lafur, ond wrth oresgyn amgylchiadau heriol, roedd sawl un yn elwa ond ddim yn barod ar gyfer y gofynion ffurfiol sy'n cyd-fynd ag ymuno â'r gweithlu. Yn lle hynny, byddan nhw wedi elwa o lwybrau tuag at waith gyda chefnogaeth sy'n fwy hirdymor.

3.12. Mae Siart 1 isod yn dangos dadansoddiad y rhai oedd yn rhan o'r CCG yn ôl blaenoriaeth mynediad sylfaenol (h.y., meini prawf cymhwysedd) ac mae Siart 2 yn dangos y deilliannau ymadael sydd wedi'u cyflawni.



Siart 2: Cronfa Cynhwysiant Gweithredol : Deilliannau Ymadael Unigolion

(Ffynhonnell: CGGC o 23096 o Gofnodion)



3.13. Bu i nifer o leoliadau profiad gwaith unigolion CCG a'u swyddi yn dilyn y lleoliadau hynny yn swyddi lefel-mynediad gydag arlwyo, manwerthu, adeiladu, cartrefi gofal, manwerthu ar-lein, gofal plant a gwaith ieuenctid ymysg y categorïau mwyaf cyffredin.

3.14. Roedd lefel o ansicrwydd yn y swyddi wnaeth yr unigolion lwyddo i'w derbyn, a hyn yn rhannol gan fod y sectorau sy'n cynnig cyfleoedd yn fregus (er enghraifft mae cyfleoedd manwerthu ar y Stryd Fawr yn gostwng) a hefyd oherwydd mae rhai sectorau'n dibynnu ar gytundebau dim oriau. Yn fyr, roedd y nifer o gyfleoedd lleol oedd ar gael ac ansawdd y cyfleoedd o'r fath yn amrywiol dros ben ar gyfer lleoliadau yn ogystal â gwaith yn dilyn y lleoliadau hynny.

3.15. Fodd bynnag, bu i fuddiolwyr arloesol CCG ddangos sut i ddwyn cyflenwi a galw ynghyd drwy gefnogi busnesau bach lleol i ddatblygu a recriwtio staff newydd a drwy helpu'r rhai oedd yn rhan o'r CCG i fanteisio ar y swyddi hyn. Ar ei gorau, bu i'r CCG ariannu buddiolwyr a gafodd eu rhwydweithio'n effeithiol i fusnesau lleol ac a oedd yn gallu paru unigolion gyda chyfleoedd neu greu llwybrau tuag at waith neu rolau gwirfoddoli. Roedd y rhain gan amlaf yn farchnadoedd lleol a newydd (ac yn rai micro o bryd i'w gilydd) neu gyfleoedd oedd y tu hwnt i faes rhaglenni prif ffrwd mwy.

3.16. **Sgiliau Meddal a Chymhelliant:** bu i'r model CCG gydnabod bod helpu unigolion i wella'u sgiliau mwy meddal a chefnogi llesiant a gwydnwch meddyliol yn greiddiol i lawer o bobl wrth fynd ati i ddod o hyd i waith yn llwyddiannus ynghyd â dilyn ffyrdd o fyw iachach a mwy boddhaus. Mae dadansoddiad manylach yn Adran 3.6 y prif adroddiad. Mae'r siart isod yn ddarlun wedi'i echdynnu o ddadansoddiad o hunan-asesiadau unigolion oedd yn cymryd rhan ynghylch amryw agweddau sgiliau 'mwy meddal'.



Eglurhad o'r Siart: *gofynnwyd i'r holl unigolion oedd yn cymryd rhan i sgorio'u 'cyflwr' yn eu tyb nhw ar raddfa o 1 i 5 yn erbyn cyfres o gwestiynau (gydag 1 yn isel bob amser a 5 yn uchel) cyn derbyn cymorth ac yna eto unwaith iddyn nhw gwblhau eu cymorth. Mae'r bar glas / gwyrdd yn*

ymwneud â'r holl ganlyniadau posibl ac mae'r bar is yn symleiddio'r cyflwyniad gyda chod lliw coch / melyngoch / gwyrdd: gyda choch yn cofnodi unrhyw ostyngiad, melyngoch yn dangos bod dim newid o gwbl a gwyrdd yn dangos cynnydd cadarnhaol wrth gwblhau'r rhaglen CCG.

4. Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad

4.1. Bu i'r gwerthusiad gynnal asesiad Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad. Mae dadansoddiad manwl yn Adran 4 y prif adroddiad. Bu i'r gwerthusiad gadarnhau fod y fethodoleg yn berthnasol i fentrau cyflogadwyedd a bod ffynonellau ymchwil cadarn ar gael i lywio'r gwerthoedd angenrheidiol i'w gweithredu mewn asesiad o'r CCG.

4.2. Bu i'r asesiad CCG osod gwerthoedd ariannol ynghlwm â deilliannau sgiliau meddal penodol ac i ddeilliannau ymadael o'r CCG sydd wedi'u dilysu ar gyfer yr holl unigolion oedd ynghlwm â'r CCG ac a oedd wedi cwblhau eu cymorth ar neu cyn Mawrth yr 31ain 2022 (23,000+ o bobl). Roedd hyn yn cynnwys cymwysterau oedd wedi'u hennill, lleoliadau gwaith a mynd ati i ddod o hyd i waith.

4.3. Cafodd tybiaethau pesimistaidd eu gweithredu i raddfa a hirhoedledd y buddion fel cafodd effeithiau cychwynnol y CCG eu prisio'n £202.4m ac yna eu lleihau ar gyfer di-fudd a phriodoliad (5%) a dadleoliad (20%), h.y., gan ystyried ai CCG oedd yr ysgogwr ai pheidio neu lle y gallai'r canlyniad fod wedi digwydd beth bynnag, yn ogystal â chyfradd gostwng ragdybiedig a gostyngol o 60% ar gyfer llwyddiannau ar ôl dwy flynedd.

4.4. Bu'r gymhareb o gostau cyffredinol o gymharu ag effeithiau (£151.8 o fuddion / costau o £45.0m) yn 3.37 h.y., am bob £1 gafodd ei wario, bu i'r CCG ildio £3.37 o fudd meintiol.

4.5. Mae'r gymhareb hon yn bwyllog o ran gosod gwerthoedd o ran yr hyn gellir ei ddangos gyda'r data sydd ar gael. Gallai eu gwerth gwirioneddol fod yn uwch oherwydd does dim data ar gael i feintioli agweddau megis gwirfoddoli parhaus ar ôl cymryd rhan yn y CCG, buddion i deuluoedd, i gymunedau neu'r buddion tymor hirach i unigolion oedd yn cymryd rhan. Mae hefyd o fewn yr ystod o asesiadau eraill sydd wedi'u harchwilio.

5. CCG ynghlwm â Sefyllfa Polisïau a Rhaglenni Ehangach Cymru

5.1. Bu'r CCG ar waith mewn sefyllfa polisïau a rhaglenni cymhleth a oedd yn gweithredu ar sawl lefel o lefel lleol hyd at lefel cenedlaethol. Roedd rhaglenni'n gorgyffwrdd o ran nodau datganedig gydag enghreifftiau o gydweithio effeithiol rhwng mudiadau a rhaglenni ac achlysuron lle'r oedd rhaglenni i weld yn cydweithio'n llai cytûn neu'n cystadlu.

5.2. Dydy amryw raglenni sy'n gweithredu gydag amcanion gweddol debyg ac yn yr un diriogaeth *o reidrwydd* yn beth drwg ar yr amod bod ffiniau gweithredol yn amlwg a bod cydweithio buddiol yn cael ei gyflawni fel sy'n briodol. Mae amcanion cyflogadwyedd, llesiant a lles yn mynd i'r afael â gwahanol grwpiau mewn amgylchiadau sydd yr un mor amrywiol. Felly, gallai amryw ffynonellau

cymorth fod yn fuddiol os ydyn nhw'n meithrin sgiliau, arbenigedd a gwybodaeth gyflenwol.

5.3. Yn ymarferol, ychydig iawn o brosiectau oedd ar gael ledled Cymru fel yr oedd y CCG ac roedd hyd yn oed llai yn adnabod y 'trydydd sector' yn benodol fel partner. Mae'r sefyllfa ar ôl y CGE yn edrych yn symlach er ei fod yn esblygu ond mae gorbryder ynghylch i ba raddau bydd y trydydd sector ynghlwm (ac wedi'i ariannu) i helpu cefnogi'r rheiny sy'n wynebu'r mwyaf o heriau yn y ffordd bu i CCG ei hwyluso. Bu i'r CCG ategu rhaglenni cynharach i ymgysylltu'r sector gwirfoddol â pharhad dros gyfnod sylweddol o flynyddoedd a gwella gallu ac arbenigedd y sector, gan gynnwys gweithio gyda'r unigolion mwyaf ymylol. Mae dod a'r rhaglen i ben (heb unrhyw olynydd ar y gweill) a chyfyngiadau ehangach o ran adnoddau, yn peryglu erydiad sylweddol yn y gallu a'r arbenigedd hwnnw.

5.4. Bu i'r CCG hefyd ariannu cymorth ar gyfer unigolion a grwpiau wedi'u targedu a hynny o fewn neu y tu hwnt i'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Bu'r 'cyrhaeddiad' eang hwn yn fodd i bobl, a fyddai fel arall yn cael eu heithrio, fynd ati i fanteisio ar gymorth. Er enghraifft, mae anfantais wledig ar wasgar yn ddaearyddol fel arfer ac yn llai amlwg ond heb fod yn llai heriol i'r unigolion ynghlwm.

5.5. Mae amcanion Llywodraeth Cymru o ran yr economi sylfaenol yn cyd-fynd yn fras gyda'r sectorau yr oedd unigolion CCG yn dueddol o weithio ynddyn nhw neu'n dymuno gweithio ynddyn nhw, a lle mae cyfleoedd posibl fel arfer i'w cael ar gyfer pobl sy'n cael eu targedu a'u cefnogi drwy'r CCG. Mae'r ddogfen ategol '*Cyfleoedd ar gyfer y Rheiny sy'n Anodd eu Cyrraedd yn yr Economi Sylfaenol*' yn cynnig pum astudiaeth achos enghreifftiol i ddangos sut gallai mentrau tebyg i'r CCG ategu amcanion ar gyfer yr unigolion ynghlwm ac ar gyfer yr economi sylfaenol.

6: Cyfraniad CCG tuag at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Themâu Trawsbynciol CGE

6.1. Roedd CCG yn cyd-fynd yn amlwg ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ystyried bod tlodi a chyfleoedd bywyd gwael yn cyd-fynd â diweithdra hirdymor ac anweithgarwch economaidd. Fodd bynnag, mae dangos buddion hirdymor o raglenni cymharol tymor byr yn heriol gan ystyried diffyg data hydredol ynghylch sut mae unigolion a chymunedau'n datblygu dros amser.

6.2. Mae dadansoddiad mwy manwl yn Adran 6 y prif adroddiad, fodd bynnag, bu i CCG gyrraedd pobl lle'r oedd tlodi ac allgáu cymdeithasol yn aml yn gynhenid. Bu i'r CCG helpu llawer o unigolion, yn enwedig wrth gyfuno cymorth i ddatblygu'r gred y gallai amgylchiadau newid er gwell wrth feithrin sgiliau i ddod o hyd i waith.

6.3. **Cyfleoedd Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:** Bu i CCG gefnogi nifer fawr o bobl dan anfantais gan NEET ac o gefndir Du, Asiaidd neu grwpiau Ethnig

Lleiafrifol eraill, y rheiny gydag anawsterau dysgu neu sy'n profi neu wrthi'n goresgyn problemau iechyd meddwl. Er enghraifft:

a. Bu'n mynd i'r afael â heriau i ferched sy'n ceisio dychwelyd i neu ymuno â'r farchnad lafur gyda'r cydbwysedd rhwng dynion a merched sy'n cymryd rhan yn 55% i 45%, ond mae'r gymhareb o ran y cymwysterau sydd wedi'u hennill yn 50% / 50%.

b. Bu i oddeutu 5.6% o'r unigolion oedd yn rhan o'r CCG nodi eu bod yn rhan o grwpiau Pobl Ddu, Asiaidd neu o grwpiau Ethnig Lleiafrifol eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod 4.9% o boblogaeth Cymru yn deillio o'r grwpiau hyn[2] gyda thystiolaeth bod tlodi yn her arbennig (e.e., anweithgarwch economaidd yn 27% o gymharu â 23.5% ar gyfer y boblogaeth wen). Bu i gymorth CCG arwain at ganlyniadau cadarnhaol ar y cyfan ar gyfer merched a dynion a bu i fwy o ferched gymryd rhan na dynion (551 i 496).

6.4. **Cyfraniad tuag at Ddatblygu Cynaliadwy**: prif nod y CCG oedd caffael sgiliau bywyd angenrheidiol a hyfforddiant a lleoliadau ymarferol sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae cynaliadwyedd yn feta-amcan, ond ni chafodd ei ddiffinio'n benodol o ran gofynion dyfarniadau. Yn ymarferol, roedd gan y rhan fwyaf o fuddiolwyr ymrwymiad at gynaliadwyedd a oedd yn amlwg mewn ymddygiadau a pholisïau sefydliadol gyda rhai yn ei ymgorffori fel agwedd graidd yn eu cynnig i unigolion oedd yn cymryd rhan.

6.5. **Dewis Iaith:** mae papur ar wahân *'Meithrin y Defnydd o'r Gymraeg: Gwersi o'r Gronfa Cynhwysiant Gweithredol'* yn datblygu'r thema hon. Bu i gyfran fach o unigolion oedd yn rhan o'r CCG ddewis Cymraeg fel iaith gyntaf (2%), fodd bynnag, nid yw hyn yn nodi i ba raddau yr oedd y Gymraeg yn gyfrwng cyfathrebu'n anffurfiol o'i gymharu â'i ddefnydd mewn dogfennau a phrosesau swyddogol. Mae'r ddeuoliaeth hon yn adlewyrchu her ehangach yng Nghymru gyda bod Saesneg yn dueddol o gael ei derbyn fel y norm a'r dewis diofyn.

6.6. Bu'r buddiolwyr mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn ystyried y Gymraeg yn bwysig fel iaith gymunedol ac weithiau'n angenrheidiol i allu manteisio ar gyfleoedd gwaith, yn ogystal â bod yn bwysig o ran ymgysylltu â phobl fregus sy'n fwy cyfforddus yn mynegi eu hunain drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ddogfen sydd wedi'i chyfeirio ati uchod yn datblygu'r rhesymau pam bod siaradwyr Cymraeg yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg a'r agweddau sy'n meithrin y defnydd o'r Gymraeg. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn awgrymu angen ehangach ledled Cymru gyfan am newid diwylliannol yn ogystal ag ymarferol gyda defnydd mwy rhagweithiol o'r Gymraeg fel yr iaith ddiofyn a'r Saesneg fel iaith wrth gefn yn hytrach nag iaith ddiofyn.

[2] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/summaryofeconomicactivityinwales-by-year-ethnicity

Adran 7: Trosolwg: Oedd y CCG yn Effeithiol a'r Gwersi gan edrych tua'r Dyfodol

7.1. Roedd y CCG yn elfen lwyddiannus a hyblyg o ran polisi cyflogadwyedd Cymru gyda gwerth o ran galluogi cymorth unigol i bobl na ellid diwallu eu hanghenion yn gyfan gwbl drwy ddulliau sefydliadol mwy. Cafodd y cyfraniad hwn ei alluogi gan hyblygrwydd anarferol i fodloni anghenion lleol ac unigol amrywiol. Doedd dim fformiwla nac ychwaith dull unigol.

7.2. Gan ddwyn i ystyriaeth ystod amrywiol o fudiadau galluog, bu i'r CCG ddatblygu a chynnal rôl sector wirfoddol ar raddfa mewn mudiadau a oedd yn fwyaf cyfarwydd â'r grwpiau oedd wedi'u targedu ac a oedd yn gallu rhoi deallusrwydd emosiynol ar waith i ymateb i'w anghenion. Roedd y mudiadau hyn yn rai bach ac ymroddgar fel arfer, ac mewn rhai achosion roedd y staff wedi wynebu amgylchiadau tebyg.

7.3. Roedd CCG yn gweithredu ar drothwy amcanion cyflogadwyedd, llesiant a lles ac felly bu iddo gyfuno sgiliau llesiant, ffordd o fyw, hyder a meddal unigol gyda sgiliau penodol yn ymwneud â gwaith. Mae'r ddogfen ategol *'Arfer Da mewn Helpu Pobl i Ddod o hyd i Waith: Gwersi wedi'u dysgu o Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC'* yn nodi nodweddion cynllun rhaglen dda a pherfformiad buddiolwyr yn y cyd-destun hwn ynghyd ag astudiaethau achos enghreifftiol.

7.4. **Gwersi ac Egwyddorion Cynllunio ar gyfer y Dyfodol:**

Egwyddor Cynllunio 1: dylai systemau gynnig ymgysylltiad tymor hirach a chyson gydag unigolion ynghyd â chydweithio a rhannu data mwy effeithiol rhwng mudiadau: Dydy ymyriadau stacato ac sydd heb eu cydlynu gan amryw fudiadau ddim yn debygol o fod yn llwyddiannus

Egwyddor Cynllunio 2: cynnal cyswllt a chymorth parhaus i unigolion cyhyd ag y bo'i angen. Roedd hyn yn cynnwys angen am *fentora* neu *gymorth personol* i helpu pobl drwy'r camau angenrheidiol ac i sicrhau bod *unigolyn neu fudiad y gellir ymddiried ynddyn nhw* wrth law i helpu os bydd unrhyw rwystrau.

Egwyddor Cynllunio 3: mabwysiadu a gweithredu dulliau mwy systematig ynglŷn ag ailgyfeiriadau rhwng mudiadau, e.e., drwy arferion cyffredinol, canolfannau gwaith, gwasanaethau cymdeithasol, adrannau datblygu economaidd awdurdodau lleol ac ysgolion.

Egwyddor Cynllunio 4: rhoi prosesau brysbennu cydweithredol ar waith wrth gefnogi'r rheiny sy'n wynebu'r heriau mwyaf difrifol, ar gyfer bwrw iddi i ymgysylltu gydag unigolion a chynnal gweithgareddau ac wrth gynllunio cymorth mwy hirdymor ar gyfer unigolion ynghlwm â mudiadau sydd angen ymgysylltu gyda nhw er mwyn cynllunio llwybrau cymorth a chymorth a mentora priodol iddyn nhw.

Egwyddor Cynllunio 5: dylid teilwra cymorth i fodloni anghenion yr unigolyn: mae gan bobl 'anodd eu cyrraedd' anghenion a rhwystrau amrywiol rhag cymryd

rhan felly mae angen darparu cymorth effeithiol y gallan nhw ymddiried ynddo ac sy'n ddeallgar, ymatebol ac yn sensitif.

Egwyddor Cynllunio 6: dylai cymorth gyfuno help i oresgyn rhwystrau a darparu sgiliau meddal fel ffocws cyfartal i gymorth cyflogadwyedd penodol.

Egwyddor Cynllunio 7: mae'n rhaid i ymyriadau fod yn 'addas' ar gyfer unigolion a allai ystyried dulliau traddodiadol o hyfforddi neu gymorth yn anniddorol:

7.5. Mae Siart 4 isod yn dangos sut gallai hyn weithio.

Siart 4: Enghraifft: Llwybr Posibl i'r Rhai sy'n Cymryd rhan o fod yn Ymgysylltu i fynd mewn i Waith



Egwyddor Cynllunio 8: dylai rhannu data fod yn rhan annatod o gynllun y rhaglen.

Egwyddor Cynllunio 9: bodloni gofynion ariannu / cyllid cyfatebol cyson ledled ardaloedd. Mae gwahanol gyllid rhwng ardaloedd yn annymunol yn gyffredinol : bodolaeth ac anghenion y rheiny sydd angen cymorth sydd o'r pwys mwyaf.

Egwyddor Cynllunio 10: mae targedau rhaglen pendant yn hanfodol ond fe ddylen nhw roi pwysau ar ansawdd allbynnau a deilliannau ac fe ddylen nhw fod yn realistig: mae targedu'r rheiny sydd mewn amgylchiadau heriol yn anghydnaws â thargedau rhifiadol rhy fanwl gywir ar lefel leol neu ag amserlennu rhy fanwl.

Egwyddor Cynllunio 11: cyfeiriad strategol ar wahân oddi wrth arolygiaeth weithredol i sicrhau gallu i arwain os na chaiff allbynnau a deilliannau allweddol eu bodloni heb ymyriad mân fanylion gweithredol.

Egwyddor Cynllunio 12: dylai'r trefniadau gwerthuso ymwneud ag olrhain deilliannau'r unigolion ar ôl cwblhau'r prosiect, hyd at 2-3 blynedd yn ddelfrydol.

Egwyddor Cynllunio 13: yn ychwanegol i swyddogaethau gweinyddol, dylai systemau data prosiectau roi'r un flaenoriaeth i ddeilliannau monitro er mwyn gallu gwerthuso effaith.

Egwyddor Cynllunio 14: cynnal hyfforddiant, rhwydweithio a sesiynau rhannu gwybodaeth i'r rheiny sy'n cynnig cymorth i rannu dysgu, ystyried beth sy'n effeithiol a rhannu arfer da.

Egwyddor Cynllunio 15: sicrhau bod systemau gweinyddol yn cynnig atebolrwydd priodol ond sydd hefyd yn gymesur â lefelau dyfarnu grantiau.

7.6. Mae modd arall o fwrw golwg ar gynllun y rhaglen sy'n ymgorffori hanfod dysgu o'r gwerthusiad isod. Mae hyn yn adnabod y galluogwyr a'r amodau allweddol i sicrhau llwyddiant ynghyd â'r deilliannau ac effeithiau allweddol.



Unigolyn oedd yn rhan o CCG a gafodd ei chyflogi wedyn gan y corff buddiolwr wnaeth ei chefnogi hi: "*Mae hi wedi bod yn wych imi, a dw i wirioneddol yn golygu hynny, bu'n brofiad anhygoel a hyd yn oed rŵan, dw i'n edrych ymlaen at godi yn y bore a gweld pobl… mae'n bechod na fyddai'n parhau a dwi'n teimlo'n drist ac yn emosiynol am hynny. Os ewch chi rhagddi i gymryd rhan mewn prosiect CCG fel fi a'i gydio gerfydd ei war a manteisio i'r eithaf arno, mae'n gwbl lwyddiannus, wir yr*"